**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Hydref 2011**

## RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'n un o ofynion Cod Materion Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf fod y Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd, a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Felly hefyd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, mae angen i unrhyw newidiadau i bartïon i gontract yr Awdurdod gael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub.

## Cyflwyniad

2 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 26 Medi 2011 er mwyn i'r Aelodau adolygu'r cynnwys cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Doedd gan y Pwyllgor Archwilio ddim sylwadau penodol ac ni ddarganfuwyd unrhyw risgiau ac felly mae'r Pwyllgor yn argymell fod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad.

3 Cafodd y Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2011-2012 eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mawrth 2011. Ers iddynt gael eu cymeradwyo, mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2011-2012 ymlaen wedi newid. Hefyd, bu benthyciadau newydd, ers yr adroddiad diwethaf.

## Dangosyddion Darbodus 2011-2012

4 Mae'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2011-2012 wedi newid oherwydd bod y gwariant mewn gwirionedd ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2010-2011 yn llai na'r alldro amcanol. Isod, ceir esboniad o'r hyn y mae pob Dangosydd Darbodus yn ei olygu.

5 Mae'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn fesur o'r ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr Awdurdod; mae'r Ffin Weithredol yn fesur o uchafswm posib y ddyled allanol, gan ragweld llifiadau arian yn mynd i fyny ac i lawr; a'r Terfyn Awdurdodedig yw amcangyfrif o'r uchafswm y gallai'r Awdurdod ei fenthyca yn seiliedig ar asesiad o ofynion gweithredol a risgiau allanol; mae'r tri dangosydd allweddol hyn wedi newid ar gyfer 2011-2012.

6 Mae gwariant cyfalaf wedi cynyddu'n uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol, a hynny oherwydd bod cynlluniau na chwblhawyd yn llwyr yn 2010-2011 yn mynd drosodd i 2011-2012. Mae Atodiad A yn rhestru'r dangosyddion a adroddwyd ym mis Mawrth, ynghyd â'r dangosyddion diwygiedig.

## Benthyciadau Newydd

7 Cymerwyd benthyciad newydd o £1m yn lle benthyciad gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a oedd yn aeddfedu, gyda chyfradd llog yn 4.51%. Cymerwyd benthyciadau ychwanegol gydag Awdurdodau Lleol eraill oherwydd bod y cyfraddau llog yn is na'r hyn a gynigid gan y Bwrdd Benthyciadau. Mae pob benthyciad wedi ei gymryd i ddod yn lle benthyciadau oedd yn aeddfedu, neu i gefnogi'r rhaglen gyfalaf. Dyma fanylion y benthyciadau:-

| Prifswm £ | Cyfradd % | Dyddiad y Benthyciad | Cyfnod | Darparwr y Benthyciad |
|---|---|---|---|---|
| 1,000,000 | 2.08 | 10/08/2011 | 3 1/2 blynedd | Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus |
| 2,000,000 | 0.75 | 05/07/2011 | 3 ½ mis | Cyngor Dinas Caergrawnt |
| 2,000,000 | 0.55 | 15/06/2011 | 4 mis | Cyngor Hyndburn |
| 1,500,000 | 0.60 | 25/08/2011 | 5 mis | Bwrdeistref Llundeinig Ealing |
| | | | | |

## Partïon i Gontract a Buddsoddiadau

8 Roedd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2011/12, a gafodd ei chymeradwyo gan yr Aelodau ym mis Mawrth, yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf canlynol ar gyfer partïon i gontract

(1) Y Swyddfa Rheoli Dyledion yn y Trysorlys – terfyn £5m

(2) Awdurdodau Lleol (ac eithrio y gyfradd wedi ei chapio – terfyn £2m

(3) Pob banc Prydeinig a Gwyddelig a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddiad da (Fitch neu debyg). Ar hyn o bryd, diffinnir hyn fel:

| | |
|---|---|
| Tymor byr | F1 |
| Tymor hir | A |
| Nerth unigol/ariannol | B |
| Cefnogaeth | 3 |

Terfyn - £5m

9 Defnyddir banciau sydd â'u cyfraddiad yn disgyn yn is na'r rhai yn y tabl uchod os bydd adnau cyfanwerthol yn dod dan warant y llywodraeth, a'r adnau'n disgyn o fewn telerau'r gwarant.

(4) Mae gan bob Cymdeithas Adeiladu sydd â chyfraddiad (fel gyda'r sector bancio) derfyn benthyca sy'n £2m.

10 Mae gan gymdeithasau adeiladau sydd heb gyfraddiad, ond sydd ag asedau sy'n £1 biliwn neu ragor, derfyn sy'n £2m gyda therfyn amser o 9 mis.

11 Rhoddir rhestr o'r partïon cyfredol i gontract yn Atodiad B, ac ni fu unrhyw newidiadau i'r rhestr ers yr adroddiad diwethaf i'r Aelodau.

12 Y prif egwyddor sy'n llywodraethu meini prawf buddsoddi'r Awdurdod yw sicrwydd ei fuddsoddiadau. Mae ansicrwydd ynghylch teilyngdod credyd ei bartïon i gontract wedi arwain at argymhelliad gan ymgynghorwyr ein trysorlys y dylai'r terfyn amser ar gyfer buddsoddiadau fod yn uchafswm o 3 mis. Mae'r arian dros ben ar gyfer buddsoddi wedi gostwng gan mai'r strategaeth a ddilynir bellach yw defnyddio arian i gefnogi anghenion benthyca yn hytrach na'i fuddsoddi ar y farchnad. Isod, ceir rhestr o'r buddsoddiadau a ddelir, fel yr oedd pethau ar 12 Medi.

| Prifswm £ | Cyfradd % | Dyddiad y Benthyciad | Cyfnod | Darparwr y Benthyciad |
|---|---|---|---|---|
| 10,000 | 0.75 | Amh. | Galw | Bank of Scotland |
| 1,000,000 | 0.93 | 15/06/11 | 3 mis | Cymdeithas Adeiladu Newcastle |
| 1,000,000 | 0.95 | 14/07/11 | 4 mis | Cym. Ad. West Bromwich |

**Argymhellion**

13 Argymhellir:

(i) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus a nodir yn Atodiad A;

(ii) bod yr Aelodau'n nodi'r Partïon i Gontract a restrir yn Atodiad B;

(iii) bod yr Aelodau'n nodi'r benthyciadau newydd.

***ATODIAD A***

**DANGOSYDDION DARBODUS**

| | | **2011/12**<br>**£** | **2012/13**<br>**£** | **2013/14**<br>**£** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>9,507,000<br>8,640,000 | <br>5,118,000<br>5,118,000 | <br>6,356,000<br>6,356,000 |
| 2 | Gofyniad Cyllid Cyfalaf<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>26,590,000<br>26,591,000 | <br>28,549,000<br>28,504,000 | <br>32,586,000<br>32,494,000 |
| 3 | Terfyn Awdurdodedig<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>28,590,000<br>28,591,000 | <br>30,549,000<br>30,504,000 | <br>34,586,000<br>34,494,000 |
| 4 | Ffin Weithredol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>26,590,000<br>26,591,000 | <br>28,549,000<br>28,504,000 | <br>32,586,000<br>32,494,000 |
| 5 | Cymhareb y Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>7.61%<br>6.85% | <br>9.50%<br>8.22% | <br>10.78%<br>9.90% |
| 6 | Ardrawiad Cynyddrannol y Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar y Cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>143,000<br>126,600 | <br>936,000<br>890,000 | <br>1,411,000<br>1,200,000 |

**Atodiad B**

## PARTÏON I GONTRACT BUDDSODDIADAU

**Banciau – £5m o Derfyn**
Barclays, HSBC, Lloyds TSB, Royal Bank of Scotland, Santander, Bank of Scotland, Clydesdale, Ulster Bank a Citibank.

**Llywodraeth Ganol – £5m o Derfyn**
Swyddfa Rheoli Dyledion

**Awdurdodau Lleol - £2m o Derfyn**
Pob un ac eithrio'r rhai sy'n agored i gyfyngiad treth cyngor a praeseptiau dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 h.y. wedi eu 'capio' yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

**Cymdeithasau Adeiladu (cyfraddedig) - £2m o Derfyn**

Coventry and Nationwide

**Cymdeithasau Adeiladu (Asedau yn £1bn) - £2m /9mis o Derfyn**
Cumberland, Leeds, National Counties, Newcastle, Norwich and Peterborough, Nottingham, Principality, Progressive, Skipton, West Bromwich a Yorkshire.